Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd

Dyddiad: Dydd Mercher, 27 Tachwedd 2019

Amser: 09.30 – 11.48

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5779

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd) Rhun ap Iorwerth AC Alun Davies AC Mike Hedges AC Nick Ramsay AC
Tystion:	Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru Julian Revell, Llywodraeth Cymru Cathy Madge, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru Eurgain Powell, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Leanne Hatcher (Ail Glerc) Georgina Owen (Ail Glerc) Samantha Williams (Dirprwy Glerc) Martin Jennings (Ymchwilydd)

	Owen Holzinger (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore a Mark Reckless.

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y cofnodion a'r papurau.

2.1 Llythyr gan Suzy Davies AC mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar graffu ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2020-21

2.2 Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: proses gyllidebol Seland Newydd

2.3 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid at y Llywydd: Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2019

2.4 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru)

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

4 Brîff technegol: Rhagolygon ar gyfer trethi Cymru

4.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio dechnegol ar y rhagolygon ar gyfer trethi Cymru gan Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr Trysorlys Cymru, a Julian Revell, Pennaeth Dadansoddiad Cyllidol, Trysorlys Cymru.

5 Sesiwn friffio breifat: Gwaith monitro Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar gyllideb Llywodraeth Cymru – y canfyddiadau allweddol hyd yn hyn

5.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio breifat gan Cathy Madge, Arweinydd Ysgogi Newid ac Eurgain Powell, Ysgogwr Newid, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, ar waith monitro Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru o gyllideb Llywodraeth Cymru.

6 Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2018-19 a'r Amcangyfrif ar gyfer 2020-21: Trafod yr adroddiad drafft

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft.